

## CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREWALCHMAI

CYFARFOD 07/11/2016

**Presennol:** Cadeirydd Mrs C Lloyd ,Ms E Jones, Ms M Williams, Mrs H Williams, Mr G Williams, Mr B Veevers, Mrs S Jones (cofnodion).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb oddi wrth : Cyngorydd R G Parry, Mrs M Price (Clerc), Ms M E Evans, Mrs S Roberts. Yn absenoldeb y Clerc cofnodwyd y cyfarfod gan Mrs S Jones.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10/10/16 fel rhai cywir.

### **Materion yn codi:**

- (a) Cloc y Pentref. Derbyniwyd adroddiad gan gwmni Independent Memorial Inspection yn cadarnhau amcan bris o £4794 am ail bwyntio'r sment ar y gofeb. Nid oes angen i'w wneud i gyd. Mae y Clerc a Mrs E Jones wedi cwrdd â'r cwmni. Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Mrs E Jones yn cadarnhau fod y cwmni yn dweud nad yw y lleithder tu mewn i'r cloc o unrhyw beryg i'r cyflenwad trydan. Mae llawer o'r lleithder yn dod i mewn o'r plinth sydd uwchben y tabledi coffa. Bydd y cwmni yn ymgymryd â'r gwaith ar ôl i unrhyw siawns o rew fynd heibio. Mae perchennog Tŷ Newydd wedi rhoi caniatâd i'r cwmni roi eu "cherry picker" ar ei gwrtil – bydd hyn yn arbed rhywfaint o gost sgaffaldau. Gofynnodd Mrs H Williams am gopi o'r adroddiad er mwyn rhannu'r wybodaeth gyda gofalwr y cloc. Cytunwyd i hyn. Diolchwyd i Mrs E Jones am ei hadborth.
- (b) Llwybr Pendref: Dim gwybodaeth i law.
- (c) Archwiliad Allanol: Llythyr yn dweud nad ydynt yn gallu cyflwyno'r anfoneb ar hyn o bryd – derbyniwyd er gwybodaeth. Darllenwyd ymateb y Clerc i lythyr yr Archwilydd Allanol, ble y mynegodd lawer o sylwadau pellach yn herio eu casgliadau.
- (d) Cytundeb Cyflogaeth: Copi heb gyrraedd – dim i'w adrodd.
- (e) Sul y Cofio: Cadarnhad gan Yr Heddlu y byddent yn stopio y traffig am y ddau funud o dawelwch. Gofynnwyd i'r gofalwr sicrhau fod y cloc yn cadw amser (mor agos a sydd bosib) ar y diwrnod yma. Y gofalwr yn gofyn am ganiatâd i brynu cloeau bach a rhwymau plastig er mwyn diogelu y stand sy'n dal y dorch pabi i'r cloc. Cytunwyd i hyn.
- (f) Giât Llwybr yr Eglwys :E-bost wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod CSYM am ymgymryd â'r dasg o drwsio y sbring ar y giât.

### **Gohebiaeth:**

Pwyllgor Gwaith CSYM: Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. parthed Cynigion Cyllideb. Bydd y Clerc a Mrs E Jones yn mynychu'r cyfarfod.

B.T. Ymgynghoriad parthed gwneud i ffwrdd a ciosg ffôn yn y pentref. Dim ond un galwad sydd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn olaf. Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymdeithas, derbyniwyd er gwybodaeth.

Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn. Yn y broses o'i ail sefydlu. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Fforwm Twristiaeth Môn, Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned. Gwybodaeth ar gael ar y We.

Un Llais Cymru: Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Cefnogi Cyngorau Cymuned, Manylion Gwasanaeth Ymgynghori – derbyniwyd er gwybodaeth.

Menter Môn. Gwybodaeth am Amgueddfa Pop Up, Trysorau Môn fydd ymlaen Rhagfyr 1af yn Neuadd y Dref, Llangefni. Croeso i'r cyhoedd arddangos eitemau o ddiddordeb. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Ymgynghoriad Gwasanaeth Plismona. Derbyniwyd er gwybodaeth.

### **Cynllunio**

Rhybudd derbyn ceisiadau cynllunio fel a ganlyn:

Cais llawn i newid defnydd allanol ar dir gerbron Penclegir Bach.

Cais llawn i godi annedd a chreu mynedfa ar dir Brynhyfryd.

Penderfyniad Cynllunio: Caniatâd ar gyfer Plot rhif 7 ym Maes y Ffridd.

### **Ceisiadau am arian.**

Eisteddfod Llangollen 2017, Dawns Gymunedol – derbyniwyd er gwybodaeth.

### **Cylchlythyrau**

Rhun ap Iorwerth a Dan Do Môn. Derbyniwyd er gwybodaeth.

### **Ariannol.**

Derbyniwyd Anfonebau i'w talu:

Hywel G Hughes. Cyfieithu £52.50

Cymen. Cyfieithu £147.60

Cyflog y Clerc £380

HMRC £ 95.00

Parch Emyr Rowlands. Sul y Cofio £25.00 (13/11/16)

Penderfynwyd eu talu.

### **Unrhyw fater arall**

Cae chwarae Dafarn Groes. Cais gan Mr Evans i'w anifeiliaid barhau i'w bori am flwyddyn arall am £100. Cytunwyd i hyn.

Awyrlu. Dim wedi derbyn ymateb hyd yma, parthed Sul y Cofio.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 09/01/2017**